Older People's Commissioner for Wales
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

☎ 08442 64 06 70
🖷 08442 64 06 80
www.olderpeoplewales.com

Cambrian Buildings
Mount Stuart Square
Cardiff CF10 5FL

Adeiladau Cambrian
Sqwâr Mount Stuart
Caerdydd CF10 5FL

Mr Mark James
Prif Weithredwr
Cyngor Sir Caerfyrddin
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
Sir Gaerfyrddin
SA31 1JP

17 Ebrill 2015

Annwyl Mr James

Hysbysiad ysgrifenedig ffurfiol a roddir o dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006: Gwybodaeth Ychwanegol Angenrheidiol

Hoffwn achub ar y cyfle hwn i ddiolch ichi unwaith eto am roi ymateb prydlon i'm Hanghenion Gweithredu, a gyhoeddwyd ochr yn ochr â chanfyddiadau fy Adolygiad o Gartrefi Gofal.

Erbyn hyn, rwyf wedi cael cyfle i adolygu pob ymateb gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad ac rwyf wedi amgáu fy arfarniad o'ch ymateb chi.

Os codoch chi gwestiynau penodol ynghylch fy Anghenion Gweithredu, mae fy ymateb i'r rhain wedi'i atodi.

Wrth ddadansoddi'r ymatebion a ddaeth i law, roeddwn i'n chwilio am sicrwydd, drwy'r wybodaeth a roddwyd a thrwy'r camau a oedd ar eu hanner neu yn yr arfaeth, y bydd fy Anghenion Gweithredu'n cael eu rhoi ar waith ac y bydd y canlyniadau arfaethedig yn cael eu cyflawni.

Fel y gwelwch o'm dadansoddiad i, rwyf wedi nodi'n glir a yw pob elfen yn eich ymateb yn 'dderbyniol', yn 'rhannol' (angen rhagor o wybodaeth) neu'n 'annerbyniol'. Mae 'derbyniol' yn golygu bod lefel y sicrwydd sydd wedi'i roi imi ar sail yr wybodaeth a roddwyd yn ddigonol; mae 'rhannol' ac 'annerbyniol' yn golygu bod arna i angen rhagor o wybodaeth er mwyn cael fy sicrhau y bydd yr Angen Gweithredu'n cael ei roi ar waith ac y bydd y canlyniad arfaethedig yn cael ei gyflawni.

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWYR MEWN POBL | INVESTORS IN PEOPLE

Pan wyf wedi dod i'r casgliad bod elfen yn eich ymateb naill ai'n rhannol neu'n annerbyniol, mae arna i angen rhagor o wybodaeth neu ymagwedd ddiwygiedig er mwyn cael fy modloni bod eich sefydliad eisoes yn cydymffurfio â'r Angen Gweithredu neu wedi ymrwymo i gymryd y camau angenrheidiol er mwyn cyflawni'r newid angenrheidiol. Dylech ddarparu'r wybodaeth hon imi erbyn **dydd Gwener 15 Mai 2015**, yn unol â'r amserlenni a bennir yn Neddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006. Os nad ydych yn glir ynglŷn ag unrhyw agwedd ar eich ymateb, yn arbennig felly beth fyddai'n rhoi'r lefel sicrwydd rwy'n chwilio amdani, neu os oes gennych gwestiynau manwl am yr Anghenion Gweithredu, mae croeso ichi gysylltu â mi.

O dan Ddeddf Comisiynydd Pobl Hŷn (Cymru) 2006, mae'n ofynnol imi gadw cofrestr o'r ymatebion i'm Hanghenion Gweithredu ac felly bydd yr holl ymatebion gan y cyrff sy'n dod o dan fy Adolygiad yn cael eu cyhoeddi ar fy ngwefan ynghyd â'r dadansoddiad o bob ymateb. Byddaf hefyd yn cyhoeddi sylwebaeth gyffredinol ynghylch a ydw i'n credu, ar sail yr wybodaeth bellach a fydd yn dod i law, y bydd y newid yr wyf yn disgwyl ei weld ar ran pobl hŷn yn cael ei wireddu. Yn ychwanegol at gyhoeddi'r wybodaeth ar fy ngwefan, byddaf hefyd yn gwneud datganiad cyhoeddus ffurfiol, o ran trosolwg o'r camau sydd ar eu hanner a'r camau y mae'r cyrff unigol sy'n dod o dan yr adolygiad yn bwriadu eu cymryd.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'm Cyfarwyddwr Llesiant a Grymuso, Daisy Cole, ar 08442 640670.

Yn gywir

Sarah Rochira

Sarah Rochira
Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin

Angen Gweithredu 1.6

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

1.6 Cynigir eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn o dan yr amgylchiadau canlynol:

- pan fo pobl hŷn mewn perygl, neu yn dioddef camdriniaeth gorfforol, emosiynol, ariannol neu rywiol.
- lle mae cartref gofal yn cau neu berson hŷn yn symud oherwydd bod eu hanghenion gofal wedi newid.
- pan fo person hŷn angen cymorth i'w helpu i adael yr ysbyty.

Yn achos y rhai sydd â chapasiti anwadal neu anawsterau cyfathrebu, dylai hwn fod yn eiriolaeth na chyfarwyddir.

Pan fo pryderon cynyddol ynglŷn â chartref gofal, mae'n rhaid i breswylwyr gael mynediad i eiriolaeth na chyfarwyddir.

Mae ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn darparu crynodeb o'r ddarpariaeth gyfredol gan ddatgan bod gan bobl fynediad i eiriolaeth annibynnol, ond nid yw'n darparu dadansoddiad na gwerthusiad o'r gwasanaethau eiriolaeth cyfredol mewn perthynas â deilliannau i bobl hŷn.

Er hynny, mae'r ymateb yn nodi rhywfaint o fanylion am y ddarpariaeth gyfredol, gan gynnwys mynediad i'r Gymdeithas Alzheimer sy'n darparu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol i bobl sy'n byw â dementia. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn nodi bod gwasanaethau IMCA, i bobl sy'n destun DOLs, yn cael ei gomisiynu oddi wrth Mental Health Matters Wales.

Mae'r Awdurdod Lleol yn datgan ei fod yn sicrhau bod eiriolwyr annibynnol ar gael i breswylwyr, gan ddatgan bod Age Cymru Sir Gâr yn cynnig gwasanaeth eiriolaeth sy'n gyfrinachol ac yn seiliedig ar yr

unigolyn. Mae'r ymateb yn datgan hefyd fod eiriolaeth yn cael ei gynnig bob amser i breswylwyr fel rhan o brotocol cau cartrefi gofal.

Ond, mae'n ymddangos nad oes yna gynllun gweithredu ac nad oes ymgais i nodi unrhyw fylchau a diffygion yn y ddarpariaeth o ran yr Angen yn benodol. Byddai cynllun gweithredu, llinell amser ac enwau swyddogion atebol, i roi sicrwydd y caiff yr Angen ei gyflawni, yn gwella'r ymateb.

Angen Gweithredu 2.2

Casgliad Cychwynnol - Derbyniol

2.2 Mae gan bobl hŷn fynediad i wasanaethau arbenigol a, phan fo hynny'n briodol, i ofal amlddisgyblaethol a ddyluniwyd i gefnogi adsefydlu yn dilyn cyfnod o afiechyd.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos ymwybyddiaeth o'r amrediad o wasanaethau gofal amlddisgyblaeth a gwasanaethau gofal arbenigol sydd ar gael ar hyn o bryd. Mae'r ymateb yn datgan bod pobl hŷn yn derbyn cefnogaeth lawn yn dilyn cyfnod o salwch sylweddol, er enghraifft ar ôl cwympo neu yn dilyn strôc, i'w galluogi i wneud y mwyaf o'u hannibyniaeth a'u hansawdd bywyd.

Mae'r ymateb yn nodi bod yr Awdurdod Lleol yn gallu gwneud hyn trwy ddwy uned breswyl sydd ag 20 o welyau sy'n rhoi cyfleoedd i bobl hŷn wella ar ôl salwch neu drawma a derbyn cymorth therapiwtig i adfer eu hannibyniaeth cyn dychwelyd adref. Ond, does yna ddim manylion am ddarpariaeth gwasanaeth ail-alluogi mewn cartrefi gofal i bobl hŷn sydd â'u cartref parhaol yno.

Er bod yr Awdurdod Lleol yn datgan bod gwelyau hyblyg hefyd ar gael ledled y Sir sydd hefyd yn cynnig cyfle ar gyfer adsefydlu, mae'r diffyg eglurder am wasanaethau adsefydlu i bob preswylydd yn golygu bod yr ymateb heb ddarparu sicrwydd y bydd yr Awdurdod Lleol yn cyflawni'r Angen Gweithredu mewn gwirionedd.

Angen Gweithredu 3.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.2 Mae holl weithwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia sylfaenol fel rhan o'r drefn gynefino, ac mae'r holl staff gofal a rheolwyr cartrefi gofal yn derbyn hyfforddiant dementia ychwanegol yn barhaus fel rhan o ddatblygu eu sgiliau a'u cymhwysedd, ac mae hyn yn elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad.

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o bwysigrwydd hyfforddiant dementia. Mae'r ymateb yn datgan bod yr holl staff sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn deall anghenion corfforol ac emosiynol pobl hŷn sy'n byw â dementia ac nad oes rhagdybiaethau ynghylch gallu yn cael eu gwneud mwyach. Mae'r ymateb yn cyfeirio at hyfforddiant arbenigol a gomisiynwyd oddi wrth y Gymdeithas Alzheimer i'r rhai sy'n darparu gofal uniongyrchol.

Darperir hyfforddiant dementia (amhenodol) hefyd fel un elfen o'r cymwysterau QCF sy'n ofynnol i staff gofal cymdeithasol. Mae'r Awdurdod Lleol hefyd yn datgan bod arweinwyr dementia y Bwrdd Iechyd wedi'u sefydlu i ddarparu hyfforddiant a chefnogaeth i bob Cartref Gofal.

Mae'r ymateb hefyd yn nodi bod pedwar o gartrefi gofal yr awdurdod lleol yn cymryd rhan mewn rhaglen genedlaethol i hybu ansawdd bywyd ac urddas i breswylwyr hŷn ac wedi cael cyllid gan Ymddiriedolaeth Burdett ar gyfer Nyrsio a Rhaglen Grantiau Age Cymru.

Nodir y bydd y cartrefi gofal yn defnyddio'r dyfarniad i redeg a datblygu rhaglen urddas i'w preswylwyr, yn enwedig y rhai sydd â dementia. Dydy hi ddim yn eglur sut y mae hyn wedi'i gynnwys fel elfen benodol o oruchwylio ac asesu perfformiad. I sicrhau y cydymffurfir â'r Angen, mae angen i'r Awdurdod Lleol esbonio'r pwynt hwn.

Angen Gweithredu 3.3

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

3.3 Dylid cymryd camau o ddifrif i annog defnyddio cynlluniau cyfeillio mewn cartrefi gofal, yn cynnwys prosiectau pontio'r cenedlaethau, a chefnogi preswylwyr i ddal eu gafael ar gyfeillgarwch sy'n bodoli. Mae'n rhaid i hyn gynnwys sicrhau mynediad parhaus i gefnogaeth sy'n seiliedig ar ffydd ac i gymunedau diwylliannol penodol.

Er bod ymateb yr Awdurdod Lleol yn nodi cyfeillio fel rhywbeth pwysig i gynnal cyfeillgarwch a chysylltiadau cymunedol ac yn ystyried pwysigrwydd perthnasoedd sydd wedi'u seilio ar ffydd, diwylliant, ysbrydolrwydd/crefydd, mae'n datgan nad oes yna gynlluniau cyfeillio penodol i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal.

Ond mae cartrefi gofal yr Awdurdod Lleol yn darparu ac yn hybu amrediad o weithgareddau i hyrwyddo llesiant y preswylwyr yn y cartrefi gofal ac yn y gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys cymorth sydd wedi'i seilio ar ffydd a chymorth cymdeithasol. Ymhellach, mae grwpiau cefnogi cyfeillgarwch yn cael eu cydnabod a'u cefnogi yn y Protocol Cau Cartrefi Gofal ar gyfer cartrefi gofal yr Awdurdod Lleol.

Dydy'r ymateb ddim yn mynd i'r afael â bylchau a diffygion. Fe fyddai'n well pe bai yn gynllun gweithredu, llinell amser ac enwau swyddogion atebol i ddarparu sicrwydd y bydd yr Angen hwn yn cael ei gyflawni.

Angen Gweithredu 5.6

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

5.6 Sefydlu Cynllun Gwella Cenedlaethol er mwyn gwella cartrefi gofal ble mae Awdurdodau Lleol, Byrddau Iechyd ac AGGCC wedi nodi ffactorau risg sylweddol a/neu barhaus ynghylch yr ansawdd bywyd neu'r gofal a ddarperir i breswylwyr a/neu dorri hawliau dynol o bosibl.

Dylai'r tîm gwella cenedlaethol ddefnyddio rheolwyr cartrefi gofal profiadol, yn ogystal ag ymarferwyr eraill, er mwyn darparu cefnogaeth ddwys a thrawsffurfiol er mwyn codi safonau ansawdd bwyd a gofal i breswylwyr yn ogystal ag atal a lliniaru risgiau i ddiogelwch yn y dyfodol.

Dylai'r gwasanaeth hefyd ddatblygu ystod o adnoddau a deunyddiau hyfforddi er mwyn cynorthwyo cartrefi gofal sy'n dymuno gwella o ran hunanddatblygu a gwelliannau parhaus.

Dydy ymateb yr Awdurdod Lleol ddim yn dangos parodrwydd i gydymffurfio â'r angen; yn hytrach mae'r ymateb yn datgan bod gan gartrefi gofal sydd eisiau ac sydd angen gwella ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn fynediad i gyngor, adnoddau a chymorth arbenigol sydd yn arwain at well gofal a llai o risg.

Mae'r ymateb yn nodi bod yr Awdurdod Lleol wedi datblygu trefniadau gweithio ar y cyd ag amrediad o asiantaethau partner gan gynnwys AGGCC, Nyrsys Cymuned, Cymorth Cartrefi Gofal ac Aseswyr Nyrsys, CPNs, yr Heddlu etc, ynghyd â thimau mewnol, i sicrhau ymateb cydlynol a chyflym i feysydd o bryder, gan leihau'r nifer sy'n mynd i "Pryderon Cynyddol" neu sy'n wynebu atal lleoliadau.

Mae angen eglurder pellach ynghylch a ydy'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cydymffurfio â'r angen hwn ai peidio.

Angen Gweithredu 6.2

Casgliad Cychwynnol - Rhannol

6.2 Dylai darparwyr cartrefi gofal, comisiynwyr ac AGGCC ddatblygu ffyrdd anffurfiol a systematig o sicrhau eu bod yn deall ansawdd bywyd pobl hŷn yn well, drwy wrando arnynt yn uniongyrchol (nid drwy gwynion ffurfiol) a sicrhau y gweithredir ar y pryderon a leisir ganddynt.

Dylai adroddiadau blynyddol gael eu llunio ar sut mae adborth parhaus pobl hŷn wedi'i ddefnyddio i sbarduno gwelliant parhaus (gweler cam 6.10).

Mae'n ymddangos bod ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o bwysigrwydd gwrando ar leisiau pobl hŷn a sicrhau bod camau'n cael eu cymryd ynglŷn â'r materion a godir.

Mae'r ymateb yn datgan bod gan gomisiynwyr, darparwyr ac arolygwyr ddealltwriaeth drylwyr o ansawdd bywyd beunyddiol pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal. Mae barn pobl hŷn am eu gofal a'u hansawdd bywyd yn cael ei chofnodi a'i rhannu yn rheolaidd ac fe'i defnyddir i yrru gwelliant parhaus.

Dywedir bod 'Fy Mywyd mewn Cartref' yn cael ei ddefnyddio fel offeryn i wella ansawdd bywyd mewn cartrefi gofal. Mae hwn wedi bod yn sail i ddigwyddiadau dysgu gyda staff cartrefi gofal yr Awdurdod Lleol a'r rhai o'r sector annibynnol. Ond does dim tystiolaeth benodol wedi'i rhoi o ran defnyddio lleisiau pobl hŷn fel sbardun i greu newid.

Mae'r ymateb yn cyfeirio at Gynlluniau Gofal Unigol fel y prif ddull i nodi dewisiadau unigol preswylwyr. Caiff hyn ei adolygu'n barhaus ac fe'i defnyddir er mwyn gwella'r gwasanaeth yn barhaus. Byddai'r ymateb yn well pe bai yna ddadansoddiad o'r arferion cyfredol, opsiynau i ddelio â diffygion a bylchau ac enwau swyddogion atebol i roi sicrwydd bod y camau hyn yn gwella'r deilliannau i bobl hŷn, ac y byddan nhw'n parhau i wneud hynny.

Angen Gweithredu 6.7

Casgliad Cychwynnol - Annerbyniol

6.7 Datganiadau Ansawdd Blynyddol yn cael eu cyhoeddi gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas ag ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi gofal a gomisiynir a chartrefi gofal yr Awdurdod Lleol. Dylai hyn gynnwys:

- argaeledd eiriolaeth annibynnol mewn cartrefi gofal
- ansawdd bywyd a gofal pobl hŷn, yn cynnwys cyfeiriad penodol at
- bobl hŷn sy'n byw â dementia a/neu sy'n colli defnydd o synhwyrau
- sut mae hawliau dynol pobl hŷn yn cael eu cynnal mewn cartrefi gofal ar draws yr Awdurdod Lleol safbwyntiau pobl hŷn, eiriolwyr ac aseswyr lleyg ynghylch yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir mewn cartrefi gofal

- lleoliad daearyddol cartrefi gofal

Dylai manylion ychwanegol ynghylch gofynion adrodd yn ôl gael eu cynnwys fel rhan o'r Bil Rheoleiddio ac Archwilio.

Dydy ymateb yr Awdurdod Lleol i'r angen hwn ddim yn ymrwymo i gynhyrchu Datganiadau Ansawdd Blynyddol nac yn cyfeirio'n uniongyrchol atyn nhw. Yn hytrach mae'r ymateb yn trafod yr arferion cyfredol gan ddweud bod gan bobl hŷn fynediad i wybodaeth berthnasol ac ystyrlon am yr ansawdd bywyd a'r gofal a ddarperir gan gartrefi gofal unigol neu ynddyn nhw a bod yna fwy o dryloywder a bod yn agored mewn perthynas ag ansawdd cartrefi gofal ar draws Cymru a'r gofal y maen nhw'n ei ddarparu.

Mae'r arferion cyfredol yn cyfeirio at adroddiadau blynyddol gan Gyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol ar y gwasanaethau a ddarperir gan eu Hadrannau. Mae'r Awdurdod Lleol yn nodi hefyd y bydd angen dull o weithredu ar y cyd ag AGGCC i osgoi dyblygu a "dryswch".

Er bod y ddeialog hon i'w chroesawu, dydy hi ddim yn egluro a ydy'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i gynhyrchu Datganiad Ansawdd Blynyddol. Mae angen rhagor o eglurder ynghylch a ydy'r Awdurdod Lleol yn bwriadu cydymffurfio â'r Angen Gweithredu ai peidio.